

ATODIAD 1 – CANLLAWIAU I GYRFF SY’N GWNEUD CAIS

Os yw unrhyw sefydliad, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, cyrff yn y trydydd sector neu unrhyw grŵp cymunedol arall yn dymuno gwneud cais i’r Cyngor drosglwyddo Ased Cymunedol iddynt, dylent ymgysylltu â’r math o faterion y bydd angen i’r Cyngor eu hystyried fel rhan o’r broses o gytuno i drosglwyddo ased cyhoeddus.

Yn gyntaf, bydd angen i’r rhai sy’n gwneud cais ystyried y canlynol:

a) I wneud cais, rhaid bod yn:

Gyngor tref neu gymuned neu’n gorff yn y trydydd sector sy’n bodloni’r meini prawf a ganlyn, neu sy’n gallu dangos eu bod yn gweithio tuag at hynny:

- Mae’n gymuned neu’n endid cyfreithiol sydd, yn ddelfrydol, yn gorfforedig ac yn cynnig atebolrwydd cyfyngedig i’r rhanddeiliaid cysylltiedig. Fel arfer, bydd yn gwmni, yn gymdeithas neu’n sefydliad elusennol corfforedig. Drwyddo, bydd modd rheoli adeiladau a darparu gwasanaethau, neu fod yn berchen ar y rhain;
- Mae’n bod er budd cymuned/cymdeithas/yr amgylchedd;
- Nid yw’n dosbarthu elw - caiff unrhyw arian dros ben ei ail-fuddsoddi er budd y gymuned neu i hybu ei amcanion cymdeithasol;
- Gall ddangos fod ganddo systemau llywodraethu da a phrosesau agored ac atebol sy’n cynnwys dulliau priodol o reoli a chynnal archwiliadau ariannol;
- Gall ddangos ei fod yn ymgysylltu â’r gymuned;
- Gall ddangos bod gan y corff y sgiliau a’r gallu i ddarparu’r gwasanaethau ac i reoli’r ased yn effeithiol, neu fod y sgiliau a’r gallu angenrheidiol ar gael iddo;
- Mae’n darparu gwasanaethau, neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau, sy’n sicrhau buddion economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol i’r gymuned;
- Rhaid darparu copïau o adroddiad a chyfrifon blynyddol y corff os ydynt ar gael.

a rhaid iddo fod yn gorff sydd dan arweiniad y gymuned:

- Dangos cysylltiadau cryf â’r gymuned leol a sicrhau buddion uniongyrchol i bobl Bro Morgannwg;
- Sicrhau budd i amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl a dangos ei fod yn ceisio cynnwys pawb yn y gymuned; a
- Bydd gan y gymuned leol lais mewn penderfyniadau.

b) Dylai'r ased:

- Fod yn fuddiant cyfreithiol sy'n eiddo i'r Cyngor a rhaid i'r corff fedru dangos ei fod o fudd i'r gymuned;
- Bod yn eiddo i'r Cyngor ar ffurf rhydd-ddeiliad / lesddeiliad; ac
- Anogir cyrff i wneud cais i ddefnyddio'r ased mewn gwahanol ffyrdd ac i gydleoli gwasanaethau yno.

c) Defnydd arfaethedig:

- Mae angen y gweithgaredd arfaethedig ac mae galw amdano ac ystyriwyd a oes corff arall yn diwallu'r angen hwn yn foddhaol eisoes;
- Bwriedir defnyddio'r ased mewn modd sy'n hybu blaenoriaethau Strategaeth Gymunedol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar waith, gan adlewyrchu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Bwriedir defnyddio'r ased i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm a sicrhau cynaliadwyedd;
- Mae'r corff sy'n gwneud y cais wedi penderfynu faint o le sydd ei angen i roi ei gynigion ar waith ac wedi dangos sut y bydd yn gwneud y gorau o'r ased;
- Bwriedir defnyddio'r ased mewn ffordd sy'n cynnwys pob rhan o'r gymuned a bydd yn agored i bawb.